OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 594 (Cy. 135)

# YR AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *17 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**).

### Enwi, cychwyn a dod i ben

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Gorffennaf 2020.

### Deddfiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

**2.**—(1) Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990—

(a) adrannau 33, 34 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**2**);

(b) adrannau 171G, 179, 187, 187A, 216 a 331 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**);

(c) adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**4**);

(d) rheoliad 65 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**5**);

(**1**) 1990 p. 43. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru o dan adran 57, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y pwerau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd adran 33 gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, O.S. 2007/3538, O.S. 2006/937, O.S. 2009/1799, O.S. 2015/664, O.S. 2016/1154 ac O.S. 2019/620. Diwygiwyd adran 34 gan O.S. 2000/1973, O.S. 2005/2900, O.S. 2006/123 (Cy. 16), O.S. 2007/3538, O.S. 2009/1799, O.S. 2010/675 ac O.S. 2011/988.

(**3**) 1990 p. 8. Ychwanegwyd adran 171G gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2015/664. Amnewidiwyd adran 179 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2015/664. Diwygiwyd adran 187 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a chan O.S. 2015/664. Ychwanegwyd adran 187A gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Diwygiwyd adran 216 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991.

(**4**) 1990 p. 10 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a chan O.S. 2015/664.

(**5**) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141).

(e) rheoliad 56 o Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009(**6**);

(f) rhannau 5, 8, a 9 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011(**7**); a

(g) rheoliad 38 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**8**).

(2) Ni chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hyn oherwydd unrhyw beth o angenrheidrwydd a wneir neu nas gwneir er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd o dan adran 57 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

15 Mehefin 2020

(**6**) O.S. 2009/890, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/188.
(**7**) O.S. 2011/988, y ceir diwygiadau amrywiol iddo.
(**8**) O.S. 2016/1154, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/1227.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi deddfiadau amrywiol at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990").

O dan adran 57(1) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo deiliad unrhyw drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gweithrediad gwastraff i dderbyn a chadw, neu dderbyn a thrin neu waredu, gwastraff mewn mannau penodedig o dan delerau penodedig.

O dan adran 57(2) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i ddanfon y gwastraff i berson penodedig o dan delerau penodedig, gyda'r nod bod y gwastraff yn cael ei drin neu ei waredu gan y person hwnnw.

Mae adran 57(6) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ddeddfiadau gael eu rhagnodi gan Reoliadau i sicrhau na chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hynny oherwydd unrhyw beth a wneir er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddyd o dan adran 57.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.